



Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

'Cyfryngau cymdeithasol' yw'r term cyffredin a ddefnyddir i gyfeirio at wefannau ac adnoddau ar-lein sy'n galluogi defnyddwyr i ryngweithio gyda'i gilydd mewn rhyw ffordd - drwy rannu gwybodaeth, barnau a diddordebau. Fel yr awgryma'r enw, mae cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys creu cymunedau neu rwydweithiau, gan annog cyfranogaeth ac ymgysylltiad.

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan gyflogeion Archifau Morgannwg wrth iddynt gyfranogi mewn cyfryngau cymdeithasol.

- Byddwch yn broffesiynol: cofiwch eich bod yn llysgennad ar ran eich sefydliad. Gyda dim ond un clic mae'n bosibl i'ch sylwadau gael eu gweld ym mhob rhan o'r byd.
- Byddwch yn gyfrifol: gofalwch beidio â rhoi unrhyw wybodaeth a allai beryglu diogelwch y Casgliad neu ddiogelwch y staff. Peidiwch byth â rhannu manylion personol fel cyfeiriad y cartref neu rifau ffôn.
- Byddwch yn gall; gofalwch eich bod yn gywir, yn deg ac yn drylwyr a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud y peth iawn. Os oes gennych unrhyw amheuan mynnwch air gyda'ch rheolwr llinell.

Oherwydd eu natur a'u naws mae cyfryngau cymdeithasol yn anffurfiol ond eto'n broffesiynol. Cofiwch fod cyfranogi ar-lein yn golygu bod eich sylwadau i'w gweld yn gyhoeddus, am gyfnod maith o bosib, a bod modd iddyn nhw hefyd gael eu hailgyhoeddi mewn cyfryngau eraill. Cadwch at y fframwaith cyfreithiol a'r deddfau enllib, difenwad, hawlfraint a diogelu data perthnasol.

Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn Archifau Morgannwg

Mae Archifau Morgannwg yn cymryd rhan yn y sianeli cyfryngau cymdeithasol canlynol:

- Twitter
Safle microflogio sy'n galluogi defnyddwyr i bostio negeseuon byr o hyd at 140 o lythrennau yw Twitter. Mae defnyddwyr yn 'dilyn' ei gilydd, sy'n golygu yn ei hanfod eu bod nhw'n tanysgrifio i dderbyn y negeseuon diweddaraf. Mae'r holl ddiweddariadau i'w gweld ar linell amser gyhoeddus Twitter, ond mae hefyd yn bosibl anfon negeseuon preifat uniongyrchol.
- Facebook
Safle rhwydweithio cymdeithasol yw Facebook sy'n galluogi defnyddwyr i greu proffil a dod yn 'ffrindiau' gyda'i gilydd, tra bo

busnesau yn ei ddefnyddio i greu tudalennau ar gyfer eu cefnogwyr. Mae'r safle yn eich galluogi i bostio ffotograffau a ffilmiau, creu ac ymuno â digwyddiadau a grwpiau, ysgrifennu'n gyhoeddus ar 'waliau' ffrindiau, ac anfon negeseuon preifat.

- Flickr
Gwefan y gellir cadw delweddau arni a chymuned ar-lein yw Flickr. Caiff defnyddwyr cofrestredig uwchlwytho delweddau am ddim, yn amodol ar derfyn misol, neu dalu am wasanaeth premiwm.
- You Tube
Gwefan ar gyfer rhannu fideos yw YouTube lle gall defnyddwyr uwchlwytho, rhannu a gwyllo ffilmiau. Gall unrhyw un wyllo'r ffilmiau, ond mae'n rhaid cofrestru cyn gallwch chi uwchlwytho eich ffilmiau eich hun.

Cyfyngir safleoedd cyfryngau cymdeithasol Archifau Morgannwg i'r aelodau staff y rhoddwyd caniatâd iddynt ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod oriau gwaith.

Rhaid i unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn Archifdy Morgannwg fod yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Defnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion personol

Yn Archifau Morgannwg, y cyflogai biau'r hawl i benderfynu a yw am ddefnyddio neu greu neu gymryd rhan mewn cyfryngau cymdeithasol neu unrhyw ffurf arall ar gyhoeddi neu drafod ar-lein.

Mae pobl mewn sefydliadau eraill wedi cael eu diswyddo yn sgil eu gweithgareddau ar-lein. Tra bo achosion fel hyn yn brin, mae'n bwysig bod cyflogeion yn gwybod na ellir gwahanu postio gwybodaeth am eu sefydliad oddi wrth eu bywyd gwaith. Mae'n bosibl gweld unrhyw wybodaeth a gyhoeddir ar-lein unrhyw le yn y byd o fewn eiliadau a bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd.

Os ydych chi'n gyflogai sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, dylech ddarllen ac ystyried Polisi Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfranogi Ar-lein Cyngor Caerdydd.